**<u>COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR MWYNDERAU A GYNHALIWYD AR 15 EBRILL 2024</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Yn bresennol | Y Cynghorwyr | Marc Lloyd Griffiths (yn y Gadair) |
| | | Mark Thomas |
| | | Dafydd Dafis |
| | | Rory Francis |
| | | David Jones |
| | | Geoffrey Jones |
| | | Peter Jones |
| | | Troy Maclean |
| | | Gareth Davies |
| | | Morwenna Pugh |
| | | Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor |
| | | Ellen Pugh, Dirprwy Glerc y Cyngor |

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Eifiona Davies a Linda Ann Jones.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**4. Derbyn Cofnodion**

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2024.

Dan eitem 8, nododd Y Cynghorydd Mark Thomas y dylid ychwanegu'r geiriad ar y faner i'w hedfan ar 4ydd mai, sef "Tref Gymraeg yw hon".

Eitem 14 – Maes Parcio'r Berllan – cofnodi bod y cynghorwyr wedi penderfynu symud ymlaen gyda'r prosiect – cynnig gan Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh a phawb yn cytuno.

Yn amodol ar yr uchod, derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024.

Eitem 11 – Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Morwenna Pugh bod bwrdd picnic y Berllan yn cael ei ychwanegu at yr archeb am feinciau a chytunodd pawb.

Yn amodol ar yr uchod, derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

**5. Arolwg Misol Caeau Chwarae**

Nodwyd bod sbwriel yn y gwrych o amgylch y Parc, a hefyd wrth droed y polyn fflag yn Sgwâr Diffwys. Cytunwyd bod y Dirprwy Glerc yn cysylltu gyda'r Gwasanaeth Prawf a chriw Ardal Ni i holi a allent lanhau'r ddwy ardal. Nodwyd hefyd bod giât fawr Cae Tanygrisiau ar agor a bod angen rhoi clo arni i rwystro pobl rhag gyrru cerbydau i mewn.

Trafodwyd mater y siglen Nyth Aderyn yn y Parc unwaith eto – roedd un o'r cadwyni wedi ei thynnu ymaith ac felly nid oedd yr offer yn ddiogel. Roedd y Swyddog Cynnal a Chadw wedi symud yr offer ymaith am y tro. Cynigiodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y siglen yn cael ei symud i ran arall o'r Parc sydd dan glo dros nos a chytunodd pawb. Cytunwyd hefyd bod y Clercod yn rhoid darn ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor Tref yn esbonio pam fod yr offer wedi ei symud, yn y gobaith y byddai rhieni yn helpu o ran gwrthannog gormod o blant/bobl ifanc rhag mynd ar y siglen ar yr un pryd.

**6. Ebost Hywyn Williams, Cyngor Sir Gwynedd**

Cytunwyd gwahodd Hywyn Williams i gyfarfod arferol y Cyngor Tref ym mis Mai.

**7. Rhaglen Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**

Derbyniwyd yr adroddiad ar raglen waith y Swyddog Cynnal a Chadw a chytyunwyd ychwanegu gosod arwyddion Dim Dringo ar ffensys y caeau chawrae, ac adfer y meinciau gerbron grîn y Clwb Bowlio.

**8. MUGA**

Nid oedd unrhyw beth newydd i'w adrodd.

**9. Cae Tanygrisiau – Prydles**

Cadarnhawyd bod y brydles arfaethedig yn cynnwys y tir "triongl". Cynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y Cyngor Tref yn derbyn y brydles a chytunodd pawb.

**10. Penwythnos Hwyl yn y Parc – Diweddariad**

Adroddwyd bod y trefniadau yn mynd yn dda, gyda'r is-bwyllgor yn cyfarfod bob wythnos. Dywedwyd y byddai'n dda cael mwy o gynghorwyr yn bresennol yn y cyfarfodydd, ac y byddai'r nesaf yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor am 6pm, 22ain Ebrill 2024.

**11. Plannu yn y Parc**

Roedd gwerth £1k o blanhigion yn cyrraedd yn ystod mis Mai ac roedd angen gwneud trefniadau i'w plannu, ac angen chwynnu'r gwelyau cyn hynny. Byddai Seren yn gorffen eu gwaith nhw cyn diwedd y mis ond methu gwneud gwaith chwynu. Cytunwyd hysbysebu Diwrnod Plannu Cymunedol i geisio denu gwirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith, gyda'r dyddiad i'w gadarnhau.

**12. Cronfa Cymunedau Eryri**

Cynigioddd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd David Jones bod y Clercod yn ysgrifennu i ofyn am enghreifftiau o'r hyn sydd wedi ei ariannu yn y gorffennol, er mwyn cael sylfaen i unrhyw gais a wneid yn y dyfodol, a chytunodd pawb.

DRAFT

**13. Ebost Swyddog Cefnogi Cymunedau**

Cytuwnyd gwahodd Mark Gahan, y Swyddog Cefnogi Cymunedau, i gyfarfod o'r Pwyllgor Mwynderau yn y dyfodol.

**14. Adroddiad Cerddwr Llwybrau**

Cyflwynwyd adroddiad y Cerddwr Llwybrau ar gyfer mis Ebrill, a'r ffotograffau atodol.

Adroddwyd bod John Evans yn ymddeol ym mis Mai ac y byddai angen hysbysebu'r tendr. Cytunwyd rhoi hysbyseb yn y Cambrian News, Llafar Bro ac ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor Tref.

Cytunwyd hefyd bod llythyr o ddiolch diffuant yn cael ei anfon gan y Cyngor i ddiolch i Mr Evans am ei waith caled ar ran y Cyngor dros wyth mlynedd o gerdded llwybrau.

**15. Cais Cynllunio**

Ystyriwyd y cais cynllunio canlynol:

**Rhyddhau Amodau Rhif 7 (rhaglen o waith archeolegol) a 10 cynllun draenio dŵr budr o Ganiatâd Cynllunio NP5/59/LB475E Ty'r, Allt Goch, Llan Ffestiniog, LL41 4LS**

Math Caniatad: Rhyddhau Amod Application Type: Discharge of Conditions Rhif Cais / Application Number: NP5/59/LB475G Cyfeiriad Grid / Grid Reference: 269944 341902

Nid oedd unrhyw gynghorydd wedi derbyn sylwadau gan y cyhoedd am y cais ac felly cytunwyd hysbysu Awdurdod y Parc nad oedd gan y Cyngor Tref unrhyw wrthwynebiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50pm

DRAFT